Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar yr 3ydd o Fai 2018.

1 Presennol – Edward Evans (Cadeirydd) Richard Parry – Bryncir, Anwen Humphreys John Jones – Garndolbenmaen, Richard Williams– Prenteg, Dafydd Thomas Eifion Williams Gwenno Emlyn Huws – Penmorfa, Huw Pritchard Delyth Evans – Pentrefelin, Megan Lloyd Williams Amanda Noutch Owen – Golan.

2 Ymddiheuriadau – Maldwyn Owen, Clifford Williams, Gwilym Evans.

3 Ddim yn bresennol – Gareth Jones.

4 Datgan Buddiant – Eitem 12 Pwyllgor Rheoli Canolfan Gymdeithasol Golan – Megan Lloyd Williams ac Amanda Noutch Owen.

5 Cywirdeb y cyn-gofnodion – Cofnodion – 5/4/18.
Richard Parry yn datgan eu cywirdeb a Delyth Evans yn eilio.

6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Hyfforddiant Côd Ymddygiad - Derbyniwyd ateb gan Gyngor Gwynedd yn datgan ei bod am dreialu system hyfforddiant newydd yn seiliedig ar ddarparu hyfforddiant yn hytrach na threfnu cyrsiau. Bydd Cyngor Gwynedd yn cysylltu gyda Chlercod Cynghorau Cymuned yn fuan i wneud trefniadau.

Pont y Traeth - Derbyniwyd e-bost gan Osian Richards, Cyngor Gwynedd, yn holi a fyddai'r Cyngor Cymuned yn fodlon derbyn arwydd newydd gyda Phont Croesor a Phont y Traeth arno. Clerc i gysylltu gydag Osian Richards i'w wahodd i gyfarfod mis Mehefin i drafod y mater ymhellach.

Bedd ym Mynwent Ynyscynhaearn - Ymgymerwr wedi bod yno a rhoi mwy o bridd i lawr. Bydd mwy yn cael ei ychwanegu pan fydd y garreg yn cael ei ail-osod.

Swyddfa Cofrestru Tir - Cynnwys fel eitem ar Agenda mis Mehefin.

Llwybr ger Canolfan Golan - Mae un o Arolygwyr Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Cyngor Gwynedd, wedi ymweld â'r llwybr. Mae'r ardal a ddifrodwyd wedi ei ddiogelu gyda rhwyd diogelwch, ond mae'r llwybr ar gael i gerddwyr.

Lloches bws Dolbenmaen - Derbyniwyd pris o £70 i glirio'r eiddew. John Jones am ymweld â'r lloches i weld faint o waith sydd angen ei wneud a chysylltu gyda'r Clerc.

Materion priffyrdd Pentrefelin - Derbyniwyd ateb gan Gyngor Gwynedd yn nodi nad yw'n ddyletswydd ar yr Adran Briffyrdd i gynorthwyo yn y mater. Clerc i gysylltu eto i ofyn iddynt lanhau'r cwteri yn uwch i fyny oherwydd fyddai hynny yn lleihau'r dŵr wyneb.

7 Mynwentydd

Mynwent Bethel - Gwair wedi ei dorri yn un hanner o'r fynwent. Aelodau'r cyhoedd yn gosod potiau gwydr a photeli plastig tu ôl i'r beddau sy'n creu trafferthion i'r contractwyr torri gwair. Angen torri'r mieri o giât y fynwent i lawr at y Capel. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

8 Llwybrau Cyhoeddus

Rhif 1 Mynydd Glas i Garreg Lwyd Garndolbenmaen – Clerc i holi'r Adran Hawliau Tramwy os yw'r gwaith agor y draeniau ar y llwybr wedi cychwyn.

9 Adroddiad Pentrefi –

Garndolbenmaen

Tŷ Tafarn Cross Foxes – Er gwybodaeth. Mae'r perchennog yn gwneud apêl o dan Adran 78(i) o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i gael newid defnydd o dŷ tafarn i dŷ preswyl. Cynhelir noson goffi ar y 10fed o Fai i godi arian ar gyfer prynu'r tŷ tafarn.

Tai Bro Gwgan - Bydd y tai yn cael eu glanhau gyda chemegolion, ond nid oes dyddiad wedi ei drefnu.

Lamp rhif 18 wedi cael ei atgyweirio.

Angen ysgubo'r lôn – Clerc i gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

Penmorfa

Adroddwyd fod y cae chwarae wedi ei dorri yn daclus iawn.

Manolau dros y lôn i'r Hen Bost a Garnedd Hir yn agos i wyneb y lôn. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.
Prenteg

Angen ail-baentio'r llinellau gwyn o dan Plas Pont Treuddyn. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

Cyrhaeddodd Gwenno Emlyn Huws y cyfarfod.

10 Cyfrifon 2017 - 2018

Cyflwynwyd copi o'r Cyfrifon i'r Cyngor a'r rhan gyntaf o'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer yr Archwiliad Allanol. Adroddwyd fod y Derbyniadau am 2017-2018 yn llai na 2016-2017. Yn ystod y flwyddyn cafwyd llai o gladdedigaethau, canran yr arian gellir ei hawlio am dorri llwybrau cyhoeddus wedi gostwng ac llai o DAW yn hawliadwy.

Taliadau wedi cynyddu £976.19 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Hyn wedi digwydd yn rhannol oherwydd –

- rhai ceisiadau ariannol am 2016-2017 wedi eu talu o gyllid 2017-2018.
- costau etholiad.
- cynnydd yng nghostau yswiriant ac archwiliad allanol.

Derbyniwyd y Cyfrfion gan y Cyngor. Arwyddwyd y Ffurflen Flynyddol gan y Cadeirydd a'r Clerc. Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith.

11 Arwyddion cau ffordd – trafod ym mis Mehefin.

12 Pwyllgor Rheoli Canolfan Gymdeithasol Golan - Derbyniwyd llythyr gan y Pwyllgor yn gofyn i'r Cyngor Cymuned ysgrifennu llythyr yn cefnogi eu cais am arian o gronfa Cynllun Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol. Penderfynwyd gwneud hyn. Clerc i baratoi llythyr

13 Meddygfeydd - Derbyniwyd cwynion gan aelodau o'r cyhoedd eu bod yn cyrraedd meddygfeydd a'u bod ar gau oherwydd hyfforddiant. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn ysgrifennu at Feddygfeydd Criccieth, Porthmadog, Penrhyndeudraeth a Phenygroes i holi pa mor aml mae hyn yn digwydd a sut mae'r cyhoedd yn cael gwybodaeth ynglŷn â hyn.

14 Cynrychiolwyr Pwyllgor Ardal Unllais Cymru - Penderfynwyd y byddai Dafydd Thomas a Megan Lloyd Williams yn parhau i gynrychioli'r Cyngor ar Bwyllgor Ardal Unllais.

15 Gohebiaeth

a Cyngor Gwynedd – Rhybudd cau'r ffordd – gyferbyn â Tan-y-Coed.
Rhaglen waith Trafnidiaeth a Priffyrdd – Prenteg.
Adran 257 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Bwriad i wyro llwybr troed cyhoeddus rhif 18.
Gwynedd Digidol – Mynediad cyhoeddus i Wifi mewn cymunedau gwledig – gyrru'r e-bost ymlaen at y Neuaddau o fewn y gymuned.
Ychwanegwyd – E-bost ynglyn ac aelod o dim Enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru yn gofyn am fynychu cyfarfod o'r Cyngor. Ei gwahodd i gyfarfod mis Gorffennaf.

b Cymdeithas yr Iaith – Clybiau Ieunectid.

c Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig – Gwobr Pentrefi Sir Gaernarfon 2018.

ch Unllais Cymru – Gwobrau Arfer Arloesol Cenedlaethol 2018 Enillwyr – er gwybodaeth.

d Cyngor Iechyd Cymru – Cadeirydd Newydd i Gorff Gwarchod Iechyd Gogledd Cymru – er gwybodaeth.

16 Cynllunio

Rhestrau 9/4, 13/4, 20.4. Ychwanegwyd rhestr 30/4/18.

Ceisiadau Cynllunio

Cais NP2/16/436B Cais ôl weithredol i gadw sied ardd Bronallt, Garndolbenmaen. Trafodwyd yng nghyfarfod 17eg o Ebrill. Dim gwrthwynebiad.

Cais NP2/16/E453 Ymgynghoriad o dan Rhan 37 o'r Ddeddf Trydan 1989 i gadw llinell drydan foltedd isaf uwchben Tir ger Llidiart y Cwpl, Garndolbenmaen. Dim sylwadau.

17 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian: Dim.

Biliau i'w talu

Cyflog Clerc	= £ 227.90
Ffôn	= £ 10.00
Cyfrifiadur	= £ 15.00
HMRC	= £ 56.97
Ffenestri Dwyfor	= £ 336.00
Yswiriant Zurich	= £1045.95

Ychwanegwyd

Gwasg y Bwthyn = £ 12.96

Aled Jones = £ 75.00

Derbyniadau – Pritchard & Griffiths £140.00.

Balansau Cyfrifon Banc: Cadw - £16,778.47 Cyfredol - £6,810.89.

18 Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg –

- Cyfrifon.
- Meddygfeydd.
- Llwybr Golan.
- Cyfarfod Blynyddol – penodiad Cadeirydd ac Is-gadeirydd.